YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA.' —PAUL.

HYDREF, 1868.

MORDAITH Y "MAYFLOWER."

Ar yr 17eg o Hydref, yn y flwyddyn 1558, y bu farw Mary, brenhines Prydain Fawr, yr hon mewn hanesyddiaeth a adnabyddir wrth y cyfenw "*gwacdlyd.*" Cyn pen pedair awr ar hugain wedi ei marwolaeth cyhoeddwyd Elizabeth, ei hanner chwaer, yn frenhines yn ei lle. Dydd llawn o orfoledd ydoedd y dydd hwnw i'r Protestaniaid, ond dydd tywyll, a du i'r Pabyddion; cyfnewidiodd awynau llywodraeth gwlad ag eglwys ddwylaw mewn un dydd. Gelyn Protestaniaeth ydoedd Mary, a gelyn Pabyddiaeth ydoedd Elizabeth. Dioddefodd Protestaniaid a Phuritaniaid o dan deyrnasiad Mary; ond Pabyddion a Phuritaniaid sydd i ddioddef o dan deyrnasiad Elizabeth.

Un hynod ydoedd Elizabeth o ran ei syniadau crefyddol. Yr oedd, mae'n wir, yn wrthwynebol i Babyddiaeth; etto nid oedd yn gallu ymysgwyd yn llwyr oddiwrth ddylanwad llygredigaethau y grefydd hono. Methwyd yn deg erioed a chael ganddi gydnabod fod yn iawn i offeiriaid briodi. Ychydig wahaniaethau oedd hi yn foddlon wneyd yn ymarferiadau allanol yr eglwys; ond trosedd marwol ydoedd peidio cydnabod ei hawl i wneyd hyny. Yspryd ei thad, Harry yr Wythfed, oedd ynddi, ac fel efe, nid oedd neb i lywodraethu yr eglwys ond ei hunan.

Yr oedd llawer o ddynion crefyddol yn amser Elizabeth yn teimlo yn ddwys nad oedd y *Diwygiad Protestanaidd* wedi gwneyd ond ychydig mewn ffordd o buro yr eglwys oddiwrth seremoniau gwag a diddefnydd. Yr oeddynt yn ddigon boddlon i'r brenin neu'r frenhines i fod yn ben (nifer fach iawn o grefyddwyr yr oes hono oedd yn deall hawl cydwybod mewn perthynas â chrefydd); ond yn unig iddynt lywodraethu crefydd yn ol eu tyb hwy o addasrwydd, a phe buasai pethau felly, rhoddid heibio ymarfer y groes wrth fedyddio, a'r fodrwy mewn priodas, offervnau cerdd mewn addoliad cyhoeddus, a phenlinio wrth dderbyn y Sacrament. Buaseut hwy yn casglu holl swydd wisgoedd offeiriadol y deyrnas yn un pentwr, ac yn eu llosgi yn goelcerth; a pheth arall, ni chadwesid gwyl pe cawsent hwy eu ffordd. Nid oedd dywedyd fod y fath ymarferiadau "yn bethau bach digon diniwed" yn cael un effaith ar eu meddyliau. Dadleuant yn frwdfrydig fod y cyfryw bethau yn cynorthwyo

i ddal i fynu yr hen grefydd ofergoel oedd wedi eu gormesu hwy a'r byd yn rhy hir. Yr oedd mor gâs ganddynt am dani fel mai gwrthun ganddynt mewn Protestaniaeth bob defod a'i dygai ar gôf. Puritaniaid, gan hyny, y galwyd y blaid luosog a dylanwadol yma oedd yn gwneyd cryn gynhwrf, "pan yr oedd *Bess* yn teyrnasu."

Cafodd y Puritaniaid lonyddwch gweddol yn nechreu teyrnasiad Elizabeth, ond cyn hir y cafodd y "*Court of High Commission*" awgrym i wasgu ar eu gwynt. Rhoddwyd ar ddeall iddynt fod yn rhaid i bawb, yn ddiwahaniaeth mewn pethau crefyddol, gydymffurfio ag ewyllys ei Mawrhydi neu ddioddef cosp. Yr oedd Elizabeth yn archdeyrn dwy ymherodraeth, eneidiau yn gystal a chyrph eu deiliaid. Yr oedd ei llywodraeth eglwysyddol yn cymmeryd i fewn, nid yn unig y pethau a berthynent i Caesar, ond gyda hyny, y pethau a berthynent i Dduw. Llosgid y rhai a wadent hawl ysbrydol y Pab o flaen eglwys St. Peter; ond crogid y rhai a wadent hawl ysbrydol y "Grasusaf Frenines Elizabeth" yn Tyburn. Yn ei barn hi, gwadu ei hawl i deyrnasu ar gydwybod ydoedd gwadu ei hawl i deyrnasu mewn unrhyw ddull, ac felly yn drosedd breiniol, ac yn haeddu cosp fel y cyfryw. Er hyny, teilwng yw nodi mai nid hawl y Frenhines i fod yn ben yr eglwys ydoedd achos yr annghydfod rhyngddi hi â'r mwyafrif o'i deiliaid Puritanaidd. Yn hytrach, yr oedd y Puritan, yn y cyffredin, yn cydnabod yr hawl hono; ond hyn, yr oedd am i'r hawl gael ei hymarfer yn ol y dull Puritanaidd. Dyledswydd y Frenhines ydoedd gofalu am athrawiaeth iachus, dysgyblaeth ysgrythyrol, ac addoliad addas, a rheolaidd; ond y Puritan oedd i farnu yr athrawiaeth, y ddysgyblaeth, a dull yr addoliad. Hyn ydoedd achos yr ymrafael rhwng y gydwybod freiniol a chydwybod y deiliad. Yr oedd barn y Frenhines o barthed i'r hyn oedd Ysgrythyrol yn cael ei chondemnio fel cyfeiliornad gan y Puritan.

Pan y daeth Mary i'r orsedd cymmeradwywyd deddf, prif sylwedd pa un ydoedd cyfrif pobl Lloegr a Chymru fel yn cyfansoddi eglwys Babyddol. Pan yr esgynodd Elizabeth i'r orsedd, gwnawd cyffelyb ddeddf, yr hon a gyfrifai y deyrnas fel yn cyfansoddi un eglwys Brotestanaidd, yr hon a elwid yn ddeddf Cydffurfiad (*Act of Conformity*). Pa ddeddf bynag arall a esgeuluswyd yn ystod ei theyrnasiad, beiddwn ddweyd i hon gael ei gofal mwyaf neilltuol. Bwriwyd allan o swyddi eglwysig bawb a amheuid o duedd i annghydffurfio. Taflwyd eraill i garcharau, a rhoddwyd llu i farwolaeth. Yn mhlith "*Arddercheg lu y Merthyri*" yr oedd Cymro ieuangc a haedda goffadwriaeth, o'r enw John Penry.* Diffodwyd ei

* Ganwyd *John Penry*, neu ap Henry, yn Sir Frecheiniog, yn 1559. Derbyniodd ei addysg yn Peter-house, Cambridge. Symudodd oddiyno i St. Alban's Hall, Rhydychain. Dyn duwiol oedd Penry, a phregethwr da. Dychwelodd i Gymru, ac y mae yn eithaf tebyg ei fod gyda'r cyntaf a bregethodd yr Efengyl yn gyhoeddus yn ein gwlad. Unodd â'r Puritaniaid, ac ysgrifenodd *bamphlet* dan y ffug-enw "Martin-mar-prelate," yn erbyn yr esgobion, ac am hyn danfonodd y Privy Counsel allan special warrant i'w ddal. Ar hyn ffodd i Scotland b'le yr arosodd hyd y flwyddyn 1593. Yn mis Mawrth y flwyddyn honno amcanodd ddychwelyd i Lundain gyda bwriad i osod a flaen y frenhines Elizabeth ddeiseb i gael caniatad i ddychwelyd i Cymru i bregethu yr Efengyl. Pan yn mron gorphen ei daith cafodd ei ddal yn garcharor yn mhlwyf Stepney. Ar ddydd ei *drial* dadleuodd ei achos yn gryf o flaen y llys, ond nid waeth beth, yr oeddid

oleuni, a therfynwyd ei ddefnyddioldeb, ar grogbren, mewn unigolrwydd, heb adnabyddiaeth i dosturio wrtho, ac heb gytaill i'w gysuro, a hyny cyn cyrhaedd hanner oes Yr oedd yspryd goreu y wlad yn y cyfnod yma o hanesyddiaeth yn gruddfan am ryddid, ond yn cael ei atteb trwy fwy o ormes. Y Frenhines yn eiddigeddus o'r awdurdod oedd yn feddwl yn briodol iddi i'w ymarfer. "*Frangas non flectas*," hynny yw, *Gellwch fy nhorri, ond nid fy mhlygu*, ydoedd arwyddair y Puritan o'i du yntau. Etto, yr oedd ei feddwl yn ymwibio ar hyd a lled y byd am ryw fwlch o ddiangfa. Yr oedd y "Byd Newydd," sef America, yn wrthrych mynyrdod Annghydffurfiaeth. Yr oedd rhan fawr o hono hefyd o dan lywodraeth Prydain Fawr. A fyddai yn beth anmhossibl iddynt hwy, y gorthrymus, a'r caethiwus, gan nas gallent gael rhyddid i fyw, a chrefydda, fel y dewisent, yn ngwlad eu genedigaeth, gael cymmaint o ryddid ac a fyddai yn annghenrheidiol i ymfudo i'r byd newydd er gwneyd hyny? Gyda llawer o Annghydffurfwyr y dyddiau hyny yr oedd gwlad eu genedigaeth yn Aipht eu caethiwed, a dyfroedd yr Atlantic ydoedd y *Môr Coch*, a'u gwahanai oddiwrth Ganaan eu haddewid.

Mynych iawn hefyd y byddent yn troi eu gwynebau tua Holland o herwydd y rhyddid crefyddol oedd yno i'w gael. Yr oedd brwydr fawr rhyddid crefyddol newydd ei hymladd yn y Netherlands. Gwir fod y wlad hono wedi eu lliwio â gwaed myrdd o'i mheibion dewr, ond yr oedd yr orucha fiaeth wedi ei hennill a bannerau rhyddid yn cwhwfan ar ei huchelfannau, a Babylon fawr, fel maen melin yn nghanol y môr. A fyddai yn bossibl i'r gorthrymus, a'r caethiwus wneyd ei cartref yno am ryw yspaid, nes gwawrio gobaith gwell yn ei wlad ei hunan? Dyma un o bynciau mawr ond dirgelaidd y dydd. Cyfaddefid ar bob llaw fod yn well hyd yn nod ymadael a gwlad eu genedigaeth, yr hon oedd anwyl ganddynt, na dioddef gormes parhaus, ac felly gwnawd llawer cais mewn modd dirgel gan y Puritaniaid i ymfudo i Holland, ond yn aflwyddianus. Swyddogion y llywodraeth yn dyfod i ddeall eu hamcan ac yn eu hattal. Un engraifft neillduol o bwrpasol i ni yn awr a gawn yn hanes un Robinson, gweinidog annghydffurfiol. Cytunodd ef a llawer eraill o'i gydgrefyddwyr â meistr llong am ei trosglwyddo i Holland. Yr oeddynt i gymmeryd y

---

wedi penderfynu i Penry i farw. Archesgob *Whitgift* oedd y cyntaf a lawnodododd y *death warrant*, ac yn nesaf *Mr. Sergeant Puckering* a'r barnwr *Popham*. Danfonwyd y *warrant* i'r Sirydd yn ddioed, yr hwn drannoeth a osododd i fynu y grogpren, a phan oedd Penry yn bwyta ei giniaw daeth swyddogion y Sirydd a'r newydd fod yn rhaid iddo farw y prydnawn hwnnw! Cyhoeddwyd dedryd marwolaeth arno ar y 25 o Fai, a dienyddiwyd ef ar y 29, yn y flwyddyn 1583. Ein Heglwys Sefydledig ni wnaeth hyn—a laddodd Penry, ac amryw eraill, ac a garcharodd ugeiniau a channoedd am amdiffyn eu hawl i addoli Duw yn ol eu cydwybod; er hynny oll, beiddia offeiriaid a phleidwyr yr eglwys hon ddyweyd wrthym yn ddigwilydd mai hi yw amddiffynfa rhyddid crefyddol yn ein gwlad! Gwareder ni rhag y fath amddiffynfa!! Ond cofier nad ydyw Eglwys Sefydledig y wlad yn hon yn fwy erledigaethus nac eglwysi sefydledig eraill. Ni waeth pwy blaid wneir yn eglwys sefydledig, y mae hi yn sicr o erlid pawb a wahaniaethant oddi wrthi. Ni fydd dim heddwch byth y'nghylch crefydd, na rhyddid crefyddol yn gyflawn, yn un wlad mwy na'u gilydd tra fyddo eglwysi sefydledig mewn bod. Gosoder pob enwad yn gyfartal gyda golwg ar y llywodraeth. Teimla dynion y cyfiawnder o hyn, a'r canlyniad fydd heddwch rhwng pawb pleidiau, a chyflawn ryddid crefyddol.—Gol.

llong yn Boston, swydd Lincoln, ar ddydd pennodol, ac mewn man pennodol, ond ni fu y captain yn brydlawn yn ol ei air. O'r diwedd daeth y llong, ac aeth y gwyr gwragedd a'r plant i mewn iddi yn y nos, yn ddigon diogel, ond yr oedd y captain yn ddyn diegwyddor; bradychodd yr ymfudwyr i ddwylaw swyddogion y porthladd, symmudwyd yr ymdeithwyr a'r hyn oll oedd ganddynt i fadau parod i'w derbyn, chwiliwyd hwynt yn fanwl, ymddygwyd yn ddideimlad tuag at eu gwragedd, a lladratwyd llawer o'u heiddo. Ni fu yn well arnynt ychwaith wedi eu gwyso o flaen yr ynadon; rhwymwyd llawer o honynt i atteb eu prawf, carcharwyd hwynt oll, rhai am ychydig wythnosau, a rhai am amser llawer hwy. Digwyddodd hyn y flwyddyn 1602.

Yn y gwanwyn canlynol gwnaeth Robinson a'i gyfeillion ail ymgais o'r un natur. Gwnaethant gytundeb y tro yma a llong berthynol i Holland, a'u cynllun oedd fod iddynt ymgynnull mewn lle anmhoblogaidd rhwng Grimsby a Hull, tra yr oedd y gwragedd, y plant, a'r meddianau oedd ganddynt, i gael eu danfon yno mewn bâd arforawl. Cawsant eu siomi yma etto. Daeth y bâd ddiwrnod o flaen y llong trwy ryw esgeulusdod o eiddo y captain, ac i ychwanegu at eu trafferth, taflwyd y bâd i dir gan y tonnau, ac yn ganlynol i hyn dioddefodd y gwragedd a'r plant yn fawr iawn. Boreu trannoeth, wedi noswaith helbulus, daeth y llong, ond cyn fod eu hanner wedi llwyddo i fyned iddi, gwelwyd mintai o filwyr yn agoshau er eu rhwystro. Ofnodd y captain, a chododd ei hwyliau i'r gwynt, a chyn pen nemawr amser yr oedd oedd o'r golwg ar y môr, a'r nifer oedd ganddo, gan adael y gweddill yn nwylaw y gelyn. Yr oedd Robinson, y gweinidog, wedi penderfynu bod yn olaf i fyned i mewn i'r llong, ac felly yr oedd yn llygad-dyst o'r hyn a ganlynodd. Wylai y gwragedd, a'r plant wrth eu gweled hwy a wylent hefyd; yr oedd pob gwraig yn teimlo eu bod ar un ergyd gofidus wedi ei gwneyd yn weddw, a'r plant, yn enwedig y rhai oeddynt yn ddigon hen i ddeall, yn teimlo eu bod ar unwaith wedi eu gwneyd yn amddifaid. Cyrhaeddodd y llong yn ddiogel, wedi llawer o dywydd garw, ben y daith, sef Holland. Ac yn y flwyddyn 1607 llwyddodd Robinson a'r gweddill i ymadael ac ymsefydlu yn weddol gysurus yn Leyden.

Cynnyddodd yr eglwys o dan ofal Robinson yn gyflym. Cyfrifai dri chant o aelodau, a'r oll o honynt gydag ychydig eithriadau, yn ddynion oeddynt wedi gorfod ymadael â'u gwlad o herwydd trais a chaethiwed. Yn mhen rhai blynyddau wedi eu sefydliad yn Holland, daethant i ddeall nad oedd eu heglwys i ddisgwyl llawer, os dim cynnydd oddiwrth y bobl yn mhlith pa rai yr oeddynt yn byw; a pheth arall oedd yn eu digaloni yn fawr yn Holland, gwlad eu mabwysiad, oedd fod eu plant yn ymbriodi â'r brodorion, a llawer o honynt yn gorfod ymodael â'u cartref o anghenrheidrwydd, ac ymdrechu am eu bywoliaeth yn mhlith y dyeithriaid yn ngwlad pa rai yr oeddynt yn byw. Yr oedd pethau fel hyn yn dyweyd wrthynt yn ddigon uchel, er mawr ofid iddynt, fod yr egwyddorion tros ba rai yr oeddynt wedi dioddef cymmaint, mewn perygl o gael eu difodi, os na ddyfeisid rhyw gynllun, a hyny ar fyr. Yr oeddynt yn hoff o sôn am y Brenin Iago fel eu "*tywysog naturiol*," ond nid gwiw iddynt feddwl dychwelyd i Brydain i fyw dan ei lywodraeth. Yr oedd erledigaeth yno mor gyndyn ac erioed. Lloegr ydoedd gwlad eu genedigaeth,

a'u sefydliadau oeddynt y gwaddol a draddodwyd iddynt gan eu teidau dewr. Drwg oedd ganddynt, er yr holl gam oeddynt wedi ddioddef, nas gallai e'u pl.ant fod yn ddeiliaid coron "Prydain Fawr." Yr oedd arnynt ofn y byddai i'w hachau, mewn ychydig genhedlaethau, ddyfod yn Allmaeniaid, ac felly y byddai iddynt golli eu dyddordeb yn, a'u teimlad tuag at, eu cenhedl, tra yr oedd eu dymuniad hwy am ymhelaethu terfynau llywodraeth ei Fawrlydi a byw odditani. Dichon mai anhawdd i ni yn bresennol gydymdeimlo â'r dynion penderfynol hyn yn eu trafferth. Y mae eu hamser wedi myned heibio, ac mewn pethau crefyddol braidd na feddyliem fod y cyffelyb rywogaeth wedi darfod. Wedi llawer o ymbil a gweddi am gyfarwyddyd nefol, penderfynodd yr eglwys yn Leyden fod i ran o honi fyned i America i ddarparu lle i'r gweddill, ac os byddai i'r mwyafrif ddewis myned yn gyntaf, yna yr oedd eu gweinidog Robinson i fyned gyda hwy; ond os byddai y mwyafrif am aros gartref, yr oedd Robinson i aros hefyd. Hyd y flwyddyn 1614 yr oedd y rhan hono o America, o Florida i Canada, yn myned o dan yr enw North a South Virginia. O'r amser yna cafodd y rhan ogleddol ei galw yn Loegr Newydd. Yr oedd y Brenin Iago wedi rhoddi charter i ddau gwmpeini o fasnachwyr, un yn Llundain, a'r llall yn Plymouth, yn eu hawlio i sefydlu trefedigaethau ar hyd lanau y môr, ac hefyd i'r pellder o gan milldir i'r wlad. Nid oedd cwmpeini Plymouth wedi gwneyd ond ychydig ddefnydd o'n charter hyd nes y rhodd cynulleidfa Leyden gyfleustra iddynt i wneyd hynny. Darfu i'r holl rai oedd yn awyddus am ymfudo werthu eu heiddo a gwneyd o hono un *Fund* gyffredin, a'r arian cyntaf a dynwyd o honi ydoedd yr hyn oedd yn angheurheidiol er prynu llong fechan o ryw driugain o dunelli, a'i henw oedd "*Speedwell.*" Hiriwyd llong arall yn Llundain o gant a phedwar ugain o dunnelli, enw pa un oedd "*Mayflower.*" Yr oedd hon i hwylio mewn cyssylltiad a'r Speedwell. Danfonodd cynulleidfa Leyden genhadau trostynt at fasnachwyr Plymouth i wneyd y telerau goreu a allent â hwy, o barthed i'r tir yn America. Gwnawd yn y telerau fod iddynt ryddid i addoli yn eu dull eu hunain, ac amryw bethau ereill cyssylltiadol â'u cysur yn y wlad newydd; ac ar fyr amser, wedi cael pob peth yn barod, daeth dydd yr ymadawiad.

Dyn dewr oedd y dyn hwnw a hwyliodd ei long gyntaf tros y Môr Werydd heb ganddo o.d gobaith am wlad y tu draw; ond o bob prawf o ddewrder y mae dyn erioed wedi ei gyfarfod, tebygem mai dyma y mwyaf. Yr oedd caledi y fordaith yn fawr, y môr yn llawn o fôr ladron, ac o longau cenhedloedd gelynol; y llongau yn fach, ac yn annhrefnus o'u mhewn, y wlad i ba un yr oeddynt yn myned, yn wlad anadnabyddus i raddau helaeth, yn Europe. Cyn yr ymadawiad, cadwodd yr eglwys ddiwrnod o ymbil cyffredinol, ac ar y dydd hwnw pregethodd Robinson bregeth darawiadol, a llawn o gynghorion dwys, yn mha un y dywedai, "Frodyr! yr ydym yn awr ar fyr i ymadael a'n gilydd, a pha un bynnag a fydd i mi weled eich gwyneb etto yn y cnawd, Duw y nefoedd yn unig a wyr! Pa un a ydyw hynny wedi ei ordeinio ganddo ef a'i peidio, yr wyf yn eich tyngedu yn ngwydd Duw a'i angylion sanctaidd, na foed i chwi fy nghanlyn i gam yn mhellach nac y byddoch yn gweled fy mod i yn canlyn Crist; ac os bydd i Dduw ddatguddio i chwi unrhyw

wirionedd trwy ryw offeryn arall, byddwch mor barod i'w dderbyn ac yr ydych wedi bod i dderbyn gwirioned trwy fy ngweinidogaeth i, o herwydd yr ydwyf yn argyhoeddedig fod gan Duw etto wirioneddau lawer i'w dangos o'i air sanctaidd. O'm rhan fy hunan, nis gallaf lai na gofidio pan yr ystyriwyf sefyllfa yr eglwysi diwygiedig. Y maent wedi cyrhaedd cyfnod arosol mewn crefydd, ac ni fynant ymsymmud yn mlaen oddiwrth offerynau y diwygiad. Ni fyn y Lutheriaid weled yn mhellach nac y gwelodd Luther, a pha ran bynnag o'i ewyllys a ddatguddiodd Duw i Calvin, byddai yn well ganddynt farw na'i dderbyn. Ac y mae y Calviniaid yn aros yn ddiysgog yn y man lle 'n gadwyd gan y dyn duwiol hwnnw, er eu bod yn ymwybodol nad oedd ef yn gwybod pob peth."

Dyn am fyned yn mlaen at wirionedd oedd Robinson, ac y mae y difyniad yma o'i bregeth yn taflu goleu gogoneddus ar ei gymmeriad. Canlynwyd y bregeth gan weddiau hir a theimladwy, ac ymddangosodd eu teimlad mewn llawer o ddagrau. Yr oedd nifer yr ymfudwyr oddentu cant ac uga n. Aeth llawer, yn enwedig yr hen bobl, i'w danfon mor belled a phorthladd Delft. Felly yr ymadawsant â Leyden yr hon oedd wedi bod yn gartref iddynt am oddeutu un flynedd ar ddeg. Yr oedd y llong yno yn barod idd eu derbyn, ac i hwylio boreu trannoeth. Un noswaith yn ychwaneg oedd ganddynt, a noswaith heb ond ychydig gysgu oedd hono. Gwawriodd dydd yr ymadawiad; aethant oll i fwrdd y llong! Yr oedd eu teimladau mor ddwys fel nas gallai rhai o'r Allmaeniaid oedd yn ymyl, ymattal rhag wylo gyda hwynt. Heb fod yn hir, rhoddodd llanw y mor, yr hwn nad yw yn aros am neb, rybydd iddynt i godi anghor a hwylio. Yr oedd y gwynt yn deg, ac ychydig amser fu y Speedwell cyn myned o'r golwg ar y mor mawr llydan. Cyrhaeddodd Southampton yr ddiogel, ac yno yr oedd y *Mayflower* yn eu haros. Aeth rhai wythnosau heibio cyn fod y parottoiadau anghenrheidiol wedi ei gwneyd, ond ar y 5ed o Awst yn y flwyddyn 1620, hwyliodd y Speedwell a'r Mayflower o borthladd Southampton gyda'u gilydd, ond ni fu iddynt fyned yn mhell cyn i Reynolds, captain y Speedwell, achwyn fod ei long ef yn anaddas i'r fordaith. Gorfu arnynt ddychwelyd yn eu hol i'w hadgyweirio. Wedi gwneyd hyny, fel y meddylient, gwnaethant ail gynnyg, ond ar ol myn'd allan ychydig filldiroedd, achwynodd Reynolds etto, a dychwelodd y ddwy long i borthladd Plymouth, ac anturiodd yr oll o'r ymfudwyr eu hunain i'r fordaith yn y Mayflower gan adael y llong arall ar ol Cychwynasant eu taith yn y Mayflower ar y 6ed o Fedi. Bu eu mordaith yn hir a garw, ac un waith yn neillduol o beryglus yn y nawfed wythnos. Wedi iddynt hwylio, canfyddasant dir yr hwn a ddeallasant, wedi agoshau atto, oedd *Cape Cod.* Yr oedd afon Hudson, y man ac y bwriadent forio iddo, yn mhellach i'r dehau; ond yr oedd y mordeithwyr wedi bod yn hir heb weled daear ac yn awyddus i roddi eu traed arni. Darfu iddynt gael eu gorchfygu gan y teimlad yma, aethant i'r lan, ac mor gynted ac y cawsant eu traed ar dir, syrthiasant un ac oll ar eu gliniau, gan ddiolch i Dduw'r Nefoedd am eu gwared rhag llawer o beryglon a thrueni, ac hefyd am ei harwain tros y mor mawr cynddeiriog. Ai gormod fyddai dywedyd fod yn y weddi honno a anfonwyd i fyny ar draeth Lloegr Newydd gan frawdoliaeth mor

fechan, hadau gwareiddiad newydd i ddynoliaeth, elfenau rhyddid i'r holl genhedloedd, a gallu yr hwn yn yr amser priodol, a adnewyddai holl ymerodraethau hen y ddaear. Galwyd y fan y glaniodd y TADAU PURITANAIDD gyntaf yn America, yn *Plymouth Rock*. Nid oes o fewn terfynau y cyfandir yn awr fan mor gyssegredig.

Pan y glaniasant yr oedd tua chanol Hydref. Y wlad, mor belled ac yr oeddynt yn gallu ei gweled, yn wyllt ac yn ddigysur, a gwedd y gauaf, hyd yn nod y pryd hwnw, ar ei gwyneb. Yr oeddynt bwythau yn wan ac yn afiach wedi y fordaith drafferthus. Nid oedd yr un gallu meddygol yn eu disgwyl, nac ychwaith gydnabyddiaeth iddeu croesawi ar lanau Lloegr Newydd! Perygl a chaledi oeddynt yn llygadrythu arnynt o bob tu! Yr oedd Cape Cod yn cynnyg rhyw fath o gysgod a gorphwysfa. Penderfynasent ymsefydlu yno yn hytrach na myned yn mhellach i'r dehau, fel y bwriadent pan yn cychwyn ar eu taith. Flurfiasant eu hunain yn gorph gwladyddol ac yn ddeiliaid i'r Brenin Iago, gan ymrwymo eu hunain i ufydd-dod yn mhob peth ag y byddai llais y mwafrif o'i blaid, a darfu i'r holl wyr arwyddo y cyntundeb, ond nid oedd eu nhifer ond un a deugain, a hwy a'u teuluoedd yn gwneyd i fynu gant ac un. Yr oedd y gauaf wedi eu dal, a dioddefasant lawer o galedi a newyn tra y parhaodd; ond daeth yr haf, ac wedi iddynt ymsefydlu, ychwanegwyd at eu nhifer o Holland a Lloegr. A chyn marw yr olaf o'r fintau fechan a ddaeth allan yn y Mayflower, yr oedd yn ddigon amlwg eu bod wedi bod yn foddion i sylfaenu ymherodraeth yn y byd newydd. Nid yn unig ymherodraeth ychwanegol at y rhai a fu, ond un wahanol yn ei hyspryd, yn ei sefydliadau, yn ei chrefydd, i'r holl ymherodraethau a nodir mewn hanesyddiaeth. J. T. W.

LLYTHYR ODDIWRTH DR. BELLOWS.

Rhufain, Ebrill 29, 1868.

ANWYL DR. LOWE,—Eich cymmwynas cariadus dyddiedig Chwefror 1 ni'm cyrhaeddodd hyd nes ychydig ddiwrnodau yn ol, ar fy nychweliad o'm taith annisgwyliadwy hir yn y dwyrain. Yn lle dau fis, bu'm yn absennol o Rhufain (lle yr arosai fy ngwraig) dri mis a haner. Fy mhlant a gydymdeithient a mi. Yr oedd yn daith o'r gwerthfawrocaf yn gystal a mwyaf llafurus. Mae yr Aipht yn hawdd ei gweled, ond nid byth yr anghofir hi. Syria yw y wlad anhawddaf a welais i etto drafaelu drosti. Buom saith diwrnod ar hugain ar gefn ceffyl yn trafaelu yn agos i chwech can milldir, o Beyrout i lawr y traeth, heibio Tyre a Sidon i Joppa, oddiyno i Jerusalem a'r Môr Marw, oddiyno i Nablous, Nazareth, Llyn Galilea, Cesarea Philippi, mynydd Tabor, a tharddiadau yr Iorddonen, oddiamgylch ystlys orllewinol Hermon a Damascus; ac yna dros fynydd Lebanon yn ol i Beyrout. Yn y daith hon darfu i ni ymweled â phob lle o un rhyw enwogrwydd neillduol yn Palestine a Samaria, Phœnicia a Syria yn gyffredinol, a derbyn addysc a bywiogrwydd nas gallaf yn hawdd ei ordraethu. Meddwl wyf o ddifrif fod y daith hon yn fwy pwysfawr i weinidogion ieuainc nac unrhyw daith arall, ac y mae yn

flin gennyf nas gneuthum hi ugain mlynedd yn ol. Mae ei heffaith ar y meddwl yn lled debyg i ddarllen Efengyl newydd. Dywedir am chwareuddiaeth Kean, ei fod yn dra thebyg i ddarllen Shakespeare gyda melldeniadau lluched. Teimlwn fy mod yn darllen y Testament Newydd yn haul-ddysgleirdeb dianwadal presenoldeb yr Efenglwyr eu hunain; ac i fod yr holl dudalenau yn dwym gan feddwl newydd, ac esboniad y sydd yn rhy awyrawl i'w ddesgrifio. Mi ddanfonwn bob *ammheuwr hanesiol* i Palestine er mwyn ei droedigaeth. Nid oes gennyf un mymryn o gydymdeimlad â'r cyfryw a waharddant gredinwyr i ymweled â'r Llefydd Sanctaidd, os mynant gadw eu ffydd. Coelgrefydd, cydymgeisiau eglwysol, a'r gefnloer Fahometanaidd, ydynt wedi gwneyd eu gwaethaf i iselhau a halogi y golygfaoedd yn ngweinidogaeth yr Iesu a gorchwylion yr Apostolion; ond y maent wedi methu yn hollol ddileu ol eu traed. Y mae y wlad yn aros yn un allor fawr, b'le, o dan grugiau o ludw, y llosga y tân a gyneuasant, gyda gwres a pherarogledd diddiflanedig. Celwyddau a thraddodiadau ofergoelus a flagurant yno gyda bras-dyfiant trofanol; ond y mae y Tir Sanctaidd o hyd yn llawn o wirioneddau a ffeithiau tystiol, ac mor galed i dagu â'i mynyddau cerigog, ei Iorddonen anwrthwynebol, a'i chedrwydd anfarwol. Y mae arluniaeth yr Efengylau yn cyfatteb mor berffaith i'r golygf oedd naturiol, y lle-ddarluniaeth, y blodeuaeth, yr hinsawdd, fel ag y gwna taith pob diwrnod yn Palestine ddyfnhau argraff yr Efengylau ar ein meddwl. Yr oeddwn yn canfod y trafaelwyr mwyaf diofal yn darllen eu biblau mor awyddus â phe buasent ffug-chwedl newydd ddôd allan o'r wasg. Yno nid ystyrir yr Hen Destament yn waith heneidd. Defnyddir ef gan drafaelwyr fel arwain-lyfr, ac allwedd i arferion ag ydynt mewn bôd hyd y dydd heddyw; ac y mae mor anwahanadwy gyssylltedig â'r Testament Newydd fel y teimlem na ddymunem weled y naill na'r llall o honynt byth mwy yn gyfrolau ar eu pen eu hun. Nid yn anfynych y cefais loesau o ddwfn-flinder na fuaswn wedi gorferu fy mhobl mewn cywirach adnabyddiaeth â'r Hen Destament fel y Newydd, ac na fuasai fy ngwybodaeth fy hun o'r ysgrifeniadau sanctaidd, yn ddeg cymmaint. Teimlwn hefyd mor *ddynol* yw'r Ysgrythyrau, ac mor lleied y maent yn ddyledus am eu gwerthfawrogrwydd a'u cyssegredd i'r awdurdod celfawl (*artificial*) a briodolir iddynt mor gyffredin. Eu bod yn gofysgrifau annghelfydd, didwyll, gwirioneddol, nid oes un ammheuaeth ar fy meddwl; ac yr ydwyf yr un mor sicr y cynhwysant lawer o bethau, pa mor drwyadl bynnag y credid hwynt gan yr ysgrifenwyr sanctaid eu hunain, ag ydynt yn etifeddiaeth flydd sydd wedi dyfod i lawr o amseroedd tywyll, ac am hynny yn ddarostyngedig i gyweiriad celfyddgar ammheuaeth. Ond er cymmaint yw'r erthyniad (*deduction*) hyn, teimlaf yn ddwys barch cynyddol i wirionedd diledrith, ysbrydol, a hanesiol, y ddwy oruchwyliaeth, fel eu cofnodir yn Llyfr y llyfrau; ac ymddengys Moses a Christ i mi yn agosach at Dduw, ac yn athrawon mwy awdurdodol dynolryw, nac erioed o'r blaen.

Pwy bynnag a wel y *Dwyrain*, a'r grefydd Gristnogol yno, a deimla pa mor gymmaint yw efengyl Crist yn ddyledus i rydd-ymofyniad, dadansoddiad celfyddgar, a phrofiad gweithrediadol y *Gorllewin*. Yr wyf fi wedi ymwadu yn hollol â phob ofnau o barthed i'r hyn a all

ammheuaeth onest, a beirniadaeth resymol, wneuthur i niweidio gwir ffydd? Ffydd ddibynol *(implicit)*, ffydd diymchwil, ffydd a anrhydedda ddallineb ac anwybodaeth, sydd i'w chanfod yn y dwyrain yn ei holl gynyrchion diraddiol ac erchyll, ac a wna i ddyn ffoi oddiwrth yr ystlumod a'r dylluanod—ei gwir gysgodau—i roesawi yr ammheuaeth mwyaf llygadgraff, y rhydd-dybiaeth mwyaf didosturi, fel yn anfeidrol diogelach a iachach na hygoeledd llonydd a gwenwynol Na fydded i neb ofni yr hyn all rhydd-ymofyniad, athroniaeth ddifrifol, a dwfn ddysgeidiaeth, wneuthur i ansefydlu y ffydd Grist'nogol, neu i beryglu y duwinyddiaethau sydd mewn bod. Y dwyrain, ac yn wir Ewrop yn gyffredin, ydynt hyd yma yn cyflawnu yr hyn y maent wedi bod yn nghyd âg ef er ys oesoedd, sef rhwystro ymchwiliadau i bynciau cyssegredig a phwysfawr. Y maent o'r diwedd wedi gwneuthur crefydd Crist yn goelgrefydd gwladwriaethol, yn elyn rhyddid poblogaidd, yn gastell trawsarglwyddiaeth, genfa *(bit)* i attal ewyllys y bobl, llen i orchuddio amcanion sefyllfa hunanol, ac uchelgais pydredig; nes ydyw'r Efengyl, fel y traddodwyd hi gan Grist, wedi myned bron ar goll i wybodaith ddynol. Y cyfeiliornadau ag y mae coelgrefyddau dychrynllyd yr hen fyd wedi eu caregu (*petrify*) yn eu cadair-eglwysi, a'u gweithio i gywreinwaith mwyaf dengar y gelfyddyd ysgrythyrol a lluniadol, a adlewyrchir yn ffydd awdurdodol y byd Protestanaidd yn America, ac a ddylent gael eu hymlid ymaith gan holiadau mwyaf llym a dewr, rheswm a chydwybod, celfyddid a parofiad. Credu wyf fod achos Crist'nogrwydd resymol yn un o'r achosion mwyaf dwyfol a sanctaidd yn y byd, ac na fyddwn yn cyflawni ein cenadwri os ymddygwn yn dwyllodrus neu yn ansefydlog tuag at yr ymchwiliadau mwyaf rhydd a ffyddlon, ac os methwn mewn parch trwyadl i olrheiniadau onest a diofn. Nid anfynych y cyfranogais yn anesmwythder dynion eraill, nid mwyach yn ieuainc, y'nghylch tueddiadau rhyddymofyniad; ond rhaid i mi o hyn allan ymlid ymaith y fath wendidau. Yr wyf yn gweled fod y gwaith o ochelu, a chynal i fynu syniadau, yn unig o herwydd eu hoed a'u cynnefindra â hwynt, yn cael ei gario yn mlaen, dros holl Ewrop, i ormodedd, ac nad yw o werth i mi gymmeryd rhan ynddo. Ië, ac yn mhellach, yr wyf yn gweled fod yn llechu yn nghysgod ofn y'nghylch cynnydd duwinyddiaethol a rhydd ymofyniad, bob math o gamwri ac aghyfiawnderau; ac yr wyf yn sicr, os y bydd i grefydd Crist ei hun i fyw yn unrhyw le, mai yno y bydd, lle y mae y meddwl yn fwyaf rhydd, ac enaid dyn yn fwyaf annghyfyngedig—yn fwyaf ymofyngar a hael yn ei gydymdeimladrwydd a'i syniadau.

(I'w ddiweddu yn y Rhifyn nesaf.)

ATTEB I OFYNIADAU YN TUD. 229.

1. Abraham, Gen. xii. 14—20, a Gen. xx. 1—12; Jacob, Gen. xxvii. 36; a Jehoshaphat, 2 Chron. xviii. 1, a xx. 35—37.

2. Gideon, cydmarwch Barn. viii. 22, 23, â Ioan vi. 15.

3. Moses a Samuel gan Jeremiah, yn Jer. xv. 1; Noah, Job, a Daniel, gan Ezeciel, yn Ezec. xiv. 16—18, 20.

4. Job ac Elias, Iago v. 11—17.
5. Efa, 2 Cor. xi. 1, 2, 3; a Gwraig Lot, Luc xvii. 32.
6. Yn Matt. xi. 29; a Ioan xiii. 15.
7. Zechariah, 2 Chron. xxiv. 20, 21; a Zecharias, yn Luc i. 12.
8. Noah, yn Gen. vi.; Esai liv. 9; Ezec. xiv. 14; Luc xvii. 26; Heb. xi. 7; 1 Petr iii. 20, 21; 2 Petr ii. 5.
9. Y pedwar Joseph. (1.) Yr ydym yn dysgu ffyddlondeb Duw a'i ragluniaeth yn trefnu gorchwylion dynion. (2.) Oddiwrth Matt. i. 20, gwelwn fod Duw yn cynnorthwyo ei bobl allan o anhawsderau. (3.) Oddiwrth Matt. xxvii. 57, 58, dysgwn fod yn ddyledswydd arnom i ddangos ein parch i Grist nid yn unig mewn geiriau. (4.) Dysgwn i ymostwng i ewyllys Duw pan fyddo yn dewis craill at ei waith yn hytrach na ni.

Ni awn y tro hwn i'r Epistol at y Rhufeiniaid.

Darllenwch yr Epistol yn fanol ac yn ystyriol, yr hyn ni all neb wneyd yn y dull ffol a difeddwl o ddarllen bob yn ail wers, fel mae yn arfer yn rhai o'n hysgolion Sul.

1. Pwy flwyddyn o oed Crist yr ysgrifenodd yr Apostol y llythyr hwn?

2. Arosai yr Apostol y pryd hwnw yn Corinth. Pa le mae Corinth? Yn mhwy wlad? Beth oedd iaith y wlad? Olrheiniwch ar y map y ffordd fyraf o Corinth i Rhufain. Pwy oedd ymerawdwr Rhufain y pryd hwn? Rhowch ddesgrifiad o'i garacter. Yn mhwy iaith yr ysgrifenodd yr Epistol y llythyr hwn?

3. Mae lle i gredu fod yr Eglwys yn Rhufain, sef y nifer amlaf o'i haelodau, yn gynnwysedig o *broselytiaid* i'r grefydd Iuddewig. Wrth broselytiaid yr ydym yn deall y cenhedloedd a droent o baganiaeth i gredu crefydd yr Iuddewon. Yr oedd llawer o'r cenhedloedd yn mhob man y pryd hwnw yn troi at Iuddewaeth, sef crefydd yr Hen Destament. Pwy resymau sydd i gredu mai proselytiaid oedd y rhan fwyaf o Eglwys Rhufain?

4. Dyben penaf yr Apostol yn y llythyr hwn yw dangos mawr drugaredd Duw i Iuddewon a chenhedloedd yn ei waith yn datguddio iddynt ei fwriadau daionus yn Nghrist Iesu. Ceisiwch ddangos mai dyma oedd ei brif ddyben.

5. Credai yr Iuddewon fod ganddynt hwy fwy o hawl i ffafr Duw na'r cenhedloedd. Mae'r Apostolion yn ammheu hyn gan ddangos nad oedd gan Iuddewon na Chenhedloedd hawl i ffafr Duw o herwydd eu buchedd. Yn mha le yn yr Epistol mae'r Apostol yn egluro hyn?

6. Y ddadl fawr rhwng yr Apostol â'r Iuddewon oedd yr enwaediad. Dadleuai yr Iuddewon fod yn ofynol i'r cenhedloedd crediniol gymmeryd eu henwaedu cyn y gallent gyfranogi o freintiau'r Efengyl. O'r tu arall, dadleua'r Apostol nad yw enwaediad na dienwaediad ddim yn Nghrist tuag at gyfiawnhau dyn ger bron Duw; nad ydyw Duw yn cyfiawnhau neb ond y sawl sydd ganddynt ffydd yn Nghrist. Dangoswch beth mae ffydd yn Nghrist yn gynnwys yn ol meddwl yr Apostol. Ysgrifenwch ddarlith byr ar ffydd.

7. Addefa'r Apostol i Dduw ar y cyntaf neillduo y bobl Hebreaidd i fod yn eglwys neillduol iddo ei hun, a hyny oherwydd rhesymau nad yw

wedi gweled yn dda i ddatguddio i ni. Dewisodd Jacob a gwrthododdd Esau; ond nis gwyddom ni paham. Yr oedd rhai yn sefyll yn gyndyn yn erbyn yr Efengyl ac eraill yn ei chredu ac yn derbyn lles ysbrydol oddiwrthi. Paham y mae cymmaint o wahaniaeth mewn dynion â'u gilydd sydd beth cuddiedig i ni. Dichon yr arwain y sylwadau hyn chwi i ddeall beth feddylia yr Apostol wrth *etholedigaeth.* Ceisiwch egluro ei feddwl.

8. Olreiniwch ar y map daith Doctor Bellows yn Palestine a Syria yn ol ei lythyr yn y rhifyn hwn.

Yn olaf, pa sawl rhan ymadrodd sydd yn yr iaith Gymraeg a phob iaith arall? Pa fodd mae adnabod i bwy un o honynt y perthyna pob gair?

Myfyriwr.—Da gennyf glywed oddiwrthych eto, ac i ganfod eich bod yn parhau yn eich ymdrech i ddeall y Bibl. Anhawdd iawn ydyw ymddihatru ein hunain o ragfarn dygiad i fynu; ond mae yn rhaid gwneyd hyny os mynwn wybod meddwl Duw yn Nghrist Iesu. Gyda golwg ar yr adnod y cyfeiriwch atti, Matt. xxv. 46. "A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragwyddol: ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol," addefaf ar unwaith fy mod yn cymmeryd y gair *tragwyddol* yma yn ei ystyr cyffredin—yn yr ystyr y deallai gwrandawyr yr Iesu y gair—sef yr Iuddewon. Mae yn hysbys i ni fod amryw wedi cynnyg profi fod y gair mewn cyssylltiad â chospedigaeth i'w ddeall mewn ystyr derfynol, a buom ninnau hefyd yn hir o'r farn hyn: ond a ydyw yn beth rhesymol meddwl fod yr Iesu yn arferyd y gair ar yr un anadl mewn dau wahanol ystyr? Yn ol ein meddwl ni yn awr nid oes un amnheuaeth nad oedd yr Iesu yn deall wrth y frawddeg yr un peth ag a ddeallai yr Iuddewon wrthi, sef cosp ddiddiwedd. Fel y sylwasom ryw bryd o'r blaen, nid ydyw yn canlyn fod yr Iesu tan ddwyfol ysbrydoliaeth y'nghylch dyben a pharhâd cosp, mwy nac oedd yn ei wybodaeth y'nghylch dydd y farn. Cofiwch yn wastad mai nid dyben danfoniad yr Iesu i'r byd oedd dysgu i ddynion wirioneddau casgliadol *(inductive truths)*, ond, fel y dywed yr Apostol, i ddwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni. Os oes gennym ni yn awr oleuach golygiadau am ddyben cosp nac oedd gan y Crist'nogion cyntaf, casgliadau ydynt oddiwrth yr athrawiaeth o dadoldeb Duw. Yn gymmaint ag mai Tad yw Duw, rhaid mai gyda bwriadau tad y cospa ei blant yn y byd a ddaw; ond nid ymddengys i ni fod yr Athraw bendigedig ei hun na'i apostolion ychwaith wedi typu y casgliad hwn, os oeddynt yn wir wedi cael amser i droi ei meddwl at y pwnc. Nid *metaphysician* neu athronydd oedd Crist, ac nis gallwn lai na meddwl fod y cyfryw yn cyfeiliorni a gymhwysant athrawiaethau o ddechreuad diweddarach i esbonio meddwl Crist, neu yn hytrach a ymdrechant gyssoni â hwynt frawddegau yn y Testament Newydd. Am hyny, yr ydym yn rhwym o gredu fod yr Iesu yn defnyddio y ddau air *tragwyddol* yn yr un ystyr, a hwnw yr un cyffredin. Saif yr athrawiaeth o ddyben daionus cosp yn y byd a ddaw ar sylfaen hollol anmbynol ar frawddegau ysgrythyrol cyffelyb i'r adnod hon. Os yw ein sylwadau yn gyfeiliornus mae tudalenau yr Ymofynydd yn agored i'r neb a ddewiso ysgrifenu ar y pwnc.

Esgymundod yn mhlith yr Iuddewon.—"Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau."—Ioan xvi. 2.] Yr oedd tri math o esgymundod yn mhlith yr Iuddewon. Y cyntaf oedd yr hyn a elwir yn y Testament Newydd, *bwrw allan o'r Synagog*, ac yn gynnwysedig mewn hollol ysgariad oddiwrth bob cyfeillach a masnach. Gorfyddai ar yr esgymunedig aros yn y cyflwr hwnw ddeg diwrnod ar hugain, ond yr oedd yn ei bwer i fyrhau'r amser trwy editarhau. Yr ail radd o esgymundod a gymmerai le os y daliai y dyn yn gyndyn wedi y deg diwrnod ar hugain. Esgymunid ef weithiau gan ei felldithio yn y modd mwyaf prysur. Meddylia rhai mai hyn sydd i feddwl wrth "draddodi i Satan." Cyhoeddid y trosedd yn y Synagog yn ngoleu canwyllau. Wedi esgymuno diffoddid hwynt i arwyddo fod y person esgymunedig wedi ei amddifadu o oleuni'r nef. Atafaelid ei feddianau; ni chaniateid i'w blant gwryw gael enwaedu arnynt; ac os y byddai farw yn anedifeiriol am ei drosedd, gosodid carreg ar ei elor i arwyddo y dylasai gael ei labyddio a cherrig. Ni chaniateid i neb alaru ar ei ol Y gradd olaf o esgymundod oedd y peth a elwid *anathema*, sef math o felldith a gyhoeddid ar y troseddwr os anufuddhau i ddedryd y cwrt. Y canlyniad oedd cosp gorphorol, ac weithiau alltudiaeth ac angeu. Dyma'r fath driniaeth greulon, medd Crist, oedd i'w ddysgyblion ddisgwyl, os y canlynent ef—"*Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r Synagog.*"

Tad Tragwyddoldeb.—Esai ix. 6.]—Peth cyffredin yn y Dwyrain yw desgrifio dyn i'r hwn y perthyn rhyw nodweddiad neillduol, trwy ei alw yn dad y nodweddiad hwnw. D'Herbelot, yn son am feddyg enwog, a ddywed iddo wneuthur gwelliantau mor gywrain a rhyfeddol fel y gelwid ef *Aboul Berekiat*, sef *tad bendithion.* "Tad tragwyddoldeb," sydd ditl a roddir i Grist. Ystyr y titl yw, "Tad yr hyn sydd i fod, neu i barhau yn dragwyddol." Gelwir Crist yn briodol iawn, yn ol dull y dwyrain, "Tad tragwyddoldeb," gan y prophwyd, am ei fod yn ben neu yn sylfaenydd goruchwyliaeth dragwyddol ei pharhâd.

Dr. Vaughn a'r Eglwys Sefydledig.—Traddododd Ficer Doncaster bregeth ychydig o wythnosau yn ol ar sefyllfa yr Eglwys Sefydledig gyda golwg ar y dyfodol. Dywedodd, "Teimlaf yn sicr y bydd yn rhaid i Eglwyswyr baratoi erbyn dymchweliad, nid graddol, ond buan, pob peth sydd yn neillduol a manteisiol yn eu sefyllfa eglwysol. Sylwodd esgob enwog a rhagorol a ddodwyd yn ei fedd yr wythnos ddiweddaf, 'Os caf fyw ddeng mlynedd, myfi fydd esgob diweddaf Peterborough.' Tebygol y bydd i rai o'n gwrandawyr ieuainc yma heno weled yr amser pryd y bydd Eglwys Loegr wedi ei thaflu ar y gyfundraeth wirfoddol am ei chynhaliaeth, ac i glywed y pwnc yn cael ei drafod i bwy y rhoddir yr eglwysydd a'r tiroedd a'r tai a berthynant iddi—p'un a adewir i hen Eglwys Loegr, fel yr ydym yn dewis ei galw, unrhyw weddill o'r sefyllfa gyfreithlon a'i gwnaeth yn amddiffynfa dawel i'w phlant, yn rhyfeddod i ddyeithriaid, ac yn nod gogan a chenfigen, fel y digwyddo, i filoedd o'i gelynion cartrefol. Pell wyf fi o edrych ar y cyfnewidiad dyfodol hwn, pryd bynnag y cymmer le, gyda braw a dychryn. Ni chredais i erioed mai y 'sefydliad' fel y cyfryw, yw Eglwys Crist yn Lloegr, nac ychwaith y bydd i dyniad

yn ol o ffafr y Stâd, ddiffodd o'i mewn gymundeb y Shekina dwyfol. Nid yn gymmaint dros yr eglwys yr wyf yn ofni; ond tros y wladwriaeth pan fyddo wedi darfod cael crefydd, a thros y difaterwch a ymlysga i mewn i'r bwthyn ac i'r palas, pan na fydd mwyach un ffurf o wasanaeth ac arno nod bonedd a defod—pan fyddo yn ammheus gan bob dyn a chan bob teulu, i ba le yr af heddyw i addoli—i ba le, efallai nid i un lle. Ofni wyf y cynydda anffuddiaeth oer a difater, addysg digrist, a buchedd annuwiol. Ofni wyf y cyrhaedda llawer oedran mewn anffuddiaeth ac anwybodaeth o Iachawdwr, ac yr ânt i'r bedd heb obaith am adgyfodiad a bywyd tragwyddol."—[Pe baech yn deall Cymraeg Dr. Vaughn, sicrhawn wrthych nad oes achos ofni pethau o'r fath. Elw mawr i grefydd fydd dadgysylltu eich Eglwys â'r Stâd. Gosod hyny derfyn ynddi ar Simoniaeth, bydoldeb llawer a'i hoffeiriaid, yr ymgynhenu, yr ymraniadau, a seremoniau ac ystranciau chwerthingar y Ritualiaid. Dyma'r pethau sydd yn creu anffyddiaeth yn y wlad, Dr. Vaughn. Dyma'r pethau sydd yn creu difaterwch crefyddol, ac yn gwneuthur i ddynion wawdio Efengyl Crist. Yr ydych yn siarad, Dr. Vaughn, fel pe na fyddai crefydd yn y wlad ond yn eich eglwys chwi. Gadewch i ni ddyweyd wrthych, Dr. Vaughn, fod miloedd ar filoedd o anghydffurfwyr yn y wlad, a'u bod mor grefyddol dynion ag sydd gennych chwi yn eich heglwys. Cymmerwch galon, Dr. Vaughn; gofala Crist am ei Eglwys ef ei hun.—Gol.]

CYFARWYDDYD I FYW YN DDUWIOL.

Meddwl am Dduw a charedigrwydd ei feistr a gynhaliodd Joseph rhag pechu gyd â'i feistres, pan geisiodd hi ei ddenu ef i hyny. Yr hwn yn ddyladwy a ystyrio ddaioni Duw tu ag atto ef, ac anfeidroldeb ei bresennoldeb Ef, a arswyda bechu yn erbyn ei Dad nefol, a'i Farnwr cyfiawn, ac a wylia ar rodio wrth ei fodd Ef. Meddwl dyn sydd yn ei droi oddi wrth y naill beth, ac yn ei dueddu ef at y llall, ac yn ei gyfarwyddo i'w wneuthur. Yr enaid edifeiriol wrth fynych ystyried y cywilydd, a'r golled, a'r gofid a deimlodd ei gydwybod ef oddi wrth ei hyntiau pechadurus, a fydd gofalus i'w gochelyd ar bob achlysur, ac i foddhâu ei Waredwr a'i diddanodd ef. Y gwïail a olosgwyd gan angerdd digofaint a blygant, ac a unionant* y ffordd a fynno eu gwneuthurwr. Ac nid digon feddwl weithiau am bethau ysprydol ar gip, ond rhaid eu gosod i wreiddio ac i dyfu ynom ni. Ni bydd neb y cyfryw bren iraidd ag a rydd ei ffrwyth yn ei bryd, ond yr hwn a fyfyrio ynghyfraith yr Arglwydd ddydd a nos, ac nid ambell fynydyn yn unig. Ps. i. 3. Ni cheir nerth oddi wrth fwyd, oddi eithr iddo drigo gyd â ni, ac i gylla ac afu iachus gymmeryd amser i'w droi yn waed ac yn gynhaliaeth i'r corph oll. Ac ni chryfhêir yr enaid gan y Gair heb ei gadw ynddo, a chael amser i weithio arno. Rhaid i'r ddaear wrth dymmor haf a hir gynhesrwydd, cyn y dygo ffrwyth; ni wasanaetha ganddi rai oriau, neu ddyddiau, eithr myn fisoedd o frwdfrydedd cyn yr addfedo ei chynnyrch; ac oni thwymner y galon ddaearol yn ddyfal â myfyrdod nefol, ni bydd ei ffrwyth i sanc-

* "Uniownant."—*Hen gop.*

teiddrwydd. Tra yr oedd y Prophwyd yn myfyrio yr ennynodd tan zel ynddo. Ps. xxxix. 3. Am hyny y cynghorodd Moses i'r Israeliaid feddwl yn eu calonnau am yr holl eriau a dystiolaethodd ef wrthynt, fel yr edrychent am eu gwneuthur. Deut. xxxii. 46. O herwydd cam dyb ac anghof am Dduw a gwirionedd y gwneir y pechod; ond wrth iawn bwyll y diwygir peth. Yr hyn a bair i'r Arglwydd rybuddio yr anwiriaid, gan ddywedyd, Deallwch hyn, y rhai ydych yn anghofio Duw, rhag i mi eich rhwygo. Ps. l. 22. Mae rheswm hollol i annog pobl i wasanaethu eu Gwneuthurwr a'u Cynhaliwr, a'u Prynwr, a pha fwyaf a ystyriom ni yn ei gylch, ewyllysgaraf a fyddwn i ddiwioldeb, yn enwedig wrth feddwl am y gwobr tragywyddol a dderbyn pawb yn ol eu gwaith yn y bywyd hwn. Byddwn ddiwiol yn y byd sydd yr awrhon wrth ddisgwyl am y gobaith gwynfydedig. Tit. ii. 13. Cariad y Colossiaid a weithiai tu ag at yr holl Saint er mwyn y gobaith a roddwyd i gadw iddynt yn y nefoedd. Col. i. 4, 5. Cynghora Solomon wr ieuainge i ymattal rhag rhodio yngolwg ei lygaid wrth wybod y geilw Duw ef ei farn, ac wrth gofio dyddiau tywyllwch a fyddant lawer. Preg. xi. 8, 9. Esmwyth yw meddylied am Dduw a'th gyflwr dy hun yn dy waith ac yn dy wely; nac esgeulusa'r peth sydd mor hawdd a llesol. Y gwŷnt a chwytha lle y mynno, a dry olwynion melin (ond ei gollwng iddo) tu ag at gymhwyso'r ŷd i wneuthur bara corphorol; ac awel y meddwl grasol, a gynhyrfer gan Yspryd Duw, a rydd holl alluoedd dyn ar waith tu ag geisio'r hyn a berthyn i fywyd tragywyddol.—*Y Ffydd Ddiffuant.*

TEMLAU Y DERWYDDON.

Gan fod y derwyddon yn meddwl eu bod yn anghyfreithlon i gyfyngu y Duwdod o fewn muriau yr oeddynt yn cyflawni addoliad cyhoeddus yn y llwyni cyssegredig. Ond fel ag y byddai yr addolwyr i gael eu gwasgodi i ryw radd oddiwrth rym y gwynt a'r gwlaw, ac na byddai iddynt gael eu haflonyddu yn y cyflawniad o'u defodau crefyddol, hwy a ddewisent y manau mwyaf unig, ac a blanent goed derw yn dew oddi amgylch iddynt.* Yn y llwyni hyny yr adeiladent eu temlau, olion pa rai sydd i'w gweled yn amrywiol ranau o'r ynys hyd y dydd heddyw.

Er fod y rhan fwyaf o'r temlau derwyddol gwedi eu hadeiladu er cyn cyn geni Crist, mae olion llawer o honynt i'w gweled etto. Nid yw llithriad dwy fil o flynyddoedd, a'r amrywiol gyfnewidiadau a brofodd y wlad yn yspaid yr amser hwnw, gwedi hollol anrheithio y coffadwriaethau hyn o hynafiaith. Os nad ydynt mor lluosog a phan oedd y grefydd dderwyddol yn ei grym yn y wlad, y mae digonol nifer o honynt etto yn aros i alluogi y cywraint i amgyffred eu trefniad cyffredinol, ac i'w argyhoeddi ef o wybodaeth a chywreinrwydd yr hen Gymry. Er eu bod yn drwsgl yr olwg, ac yn ddisylw gan y cyffredin, fel lleoedd wedi eu hadeiladu i ddybenion crefyddol, ac yn cael eu hystyried yn dra sanctaidd gan ein hynafiaid gynt, y maent yn deilwng o sylw yr haneswr; ac nis

---

* Henry's Hist. of Brit. Vol. I. p. 175.

gall hanes byr o honynt fod yn anghymmeradwy gan y meddwl ymofyngar.

Cafodd temlau y derwyddon eu hadeiladu ar egwyddorion celfyddgar, ac y maent yn profi cynnydd mawr mewn astronomyddiaeth. Maent wedi eu gwneuthur i fynu yn gyffredin o ddeuddeg, pedair ar bymtheg, deg ar hugain, neu dri ugain o gerrig, yn gyfattebol i rifedi y deuddeg arwydd yn y ffurfafen, neu i rifedi y blynyddoedd ag oedd yn gynnwysedig yn y cylchau ag oedd mewn ymarferiad gan astronomyddion yr oes hono. Yr oedd y cerrig hyny gwedi eu gosod yn union syth, ac yn y fath bellder y naill oddiwrth y llall, fel ag oeddent yn ffurfio cylch cyffelyb i gylch y deuddeg arwydd, neu y cylchau ereill ag oedd mewn ymarferiad y pryd hyny. Yr oedd mynediad i mewn y temlau hyn yn wastadol gyferbyn a'r dwyrain-ogledd, ac ar gyfer y mynediad i mewn, ac ychydig oddi wrtho, yr oedd tair neu ychwaneg o gerrig mawrion yn cynddrychioli y duwiau ag a addolid yno. Yn nghanol y temlau derwyddol yr oedd y cromlechau, neu gerrig mawrion llydain âg un pen iddynt yn gogwyddo tua'r llawr, y rhai gynnelid gan dair neu ychwaneg o gerrig gwedi eu gosod yn union syth, neu ar eu hymyl. Fe dybia rhai mai allorau, ar ba rai yr oedd y derwyddon yn aberthu i'w duwiau oedd y Cromlechau. Y mae ereill yn meddwl mai beddfeini oeddent. Fe allasai fod rhai o honynt gwedi cael eu codi i'r dybenion hyny; ond amlwg yw oddiwrth amrywiol amgylchiadau, y mae cerrig cyfammod, ar ba rai y cyflawnid llawer o ddefodau derwyddol, oedd y rhan fwyaf o honynt.

Yn nghylch cant neu ddau o flynyddoedd yn ol, yr oedd llawer mwy o demlau y derwyddon i'w gweled yn yr ynys hon, nag sy'n bresennol. Caf ddarllunio rhai ag oedd i'w gweled rai blynyddoedd yn ol, os nad ydynt oll i'w gweled yn awr. Yr oedd teml Carn Llechart, yn mhlwyf Llangyfelach, yn sir Forganwg, oddi amgylch i gant a thri ugain troedfedd o gylched, a chromlech fawr a elwid Cistfaen yn ei chanol hi. Yr Yr oedd Cistfaen hefyd yn nghanol teml Mynydd-drymmeu, yn agos i Gastell Nedd. Nid ymddengys yn bresennol i bwy dduwiau yr oedd y temlau hyn gwedi eu cyssegru. Buarth Arthur, neu Feini-gwyr, yn agos i Gilymaenllwyd, yn sir Gaerfyrddin, oedd gant a deg troedfedd a thri ugain o gylched, ac yn cynnwys mwy nag ugain o gerrig o dair i chwech troedfedd o hyd. Gyferbyn a mynediad i mewn y deml hon, yr oedd tair carreg fawr fel cysgod o'r duwiau a addolid ag yno. I'r duw Arthur yn fwyaf neilldnol y cyssegrwyd y deml hon.

Yn agos i Bentref Ieuan, yn mhlwyf Nefern, yn sir Benfro, yr oedd teml dderwyddol o gant a hanner o droedfeddi o gylchedd, a chromlech yn ei chanol o ddeunaw troedfedd o hŷd, a naw o lêd. Ac y mae yn debygol fod teml fawr ac ardderchog yn yr amser gynt yn mhlwyf Trefdraeth yn yr un sir. Nid oedd y deml ag oedd yn amgylchu Llech yr Ast, yn mhlwyf Llangoedmor, yn sir Aberteifi, ond bychan o faint; ond oddiwrth y pum cromlech ag oedd gynt yn agos iddi hi, fe ellir casglu ei bod yn deml gyfrifol, a bod llawer o ddefodau yn cael eu cyflawni ynthi. Yr oedd gwedi ei chysegru i Ceridwen a Llywy.

Y meini hirion yn yr un sir, oedd deml gylchaidd, gyssegredig i Geridwen. Yn agos i'r Meini hirion yr oedd y Meini cyfrifol, y rhai oedd

yn deml o bedair carreg ar bumtheg; ac yn mha un yr addolid Hu Gadarn a Cheridwen.

Yr oedd y Meini hirion yn mhlwyf Llan Ddwy Gyfylchi, yn sir Gaernarfon, yn deml gylchaidd o ddeuddeg carreg, yn gyfattebol i'r deuddeg arwydd yn y ffurfafen; ac oddi amgylch dau cant a deg ar hugain o droedfeddi o gylchedd. Ac ychydig oddi wrthi yr oedd tair carreg union syth, y rhai, mae yn debygol, oedd yn cynddrychioli Hu Gadarn, Ceridwen, a Llywy, y rhai, yn benaf, a addolid yno.

Fel ag yr oedd sir Fôn yn y dyddiau gynt yn ynys moliant Hu, ac yn brif breswylfod yr arch-derwydd, y mae yn llawn o olion temlau a chromlechau derwyddol. Y penaf o honynt yw y Gromlech yn agos i dre'r Dryw, a'r deml a elwir Cerrig y Bryngwyn. Yr oedd y deml hon ar wedd ŵy, ac yn cynnwys deuddeg o gerrig union syth, un o ba rai oedd ddeuddeg troedfedd o hyd.

Nid annhebygol yw fod y ddwy Gromlech yn mhlwyf Cerrig y Druidion yn sir Dimbych, yn nghanol temlau yn yr amser gynt, er nad yw eu hôlion i'w gweled yn bresennol.

Stonehenge, yn agos i Salisbury, oedd prif deml y derwyddon yn yr ynys hon, er fod rhai yn fwy eu mhaint. Bernir iddi gael ei hadeiladu bum can mlynedd cyn geni Crist. Nid ymddengys ei bod gwedi ei chyssegru i un duw yn neilltuol, ond ei bod yn deml gyffredinol, lle yr oedd yr holl eilunod a gydnabyddid gan y derwyddon yn cael eu gwastadol addoli. Y mae gwedi cael ei gwneuthur i fynu o bedair rhes o gerrig mawr, o chwech i ugain troedfedd o uchder. Y ddwy res bellaf allan ydynt gylchaidd, a'r ddwy nesaf i mewn ydynt ar wedd ŵy. Y mae y cylch pellaf allan yn mesur tri chan droedfedd a deg.

Abury, yn agos i Marlborough, oedd y deml dderwyddol fwyaf, ysgatfydd, yn yr ynys. Y mae clawdd o dair mil a naw cant o droedfeddi yn amgylchynu yr adail hon. Y tu mewn i ba un, y mae cylch o gan carreg gwedi eu gosod yn union syth, o un droedfedd ar bumtheg o uchder, a gerllaw cymmaint a hyny o led. A thu fewn i'r cylch hwnw y mae dwy deml o'r un ffurf a maintioli a'u gilydd.

D. Peter.

Gochelwch na chasaoch ddynion am ei hopiniynau, na mabwysiadu eu hathrawiaethau oblegid eich bod yn caru ac yn parchu eu rhinweddau.

Y mae gwir fawredd yn gynnwysedig mewn gwneuthur peth sydd yn haeddu cael ei ysgrifenu, mewn ysgrifenu peth sydd yn haeddu cael ei ddarllen, a gwneuthur dynion yn ddedwyddach ac yn well o'ch herwydd chwi.

Beth ydyw hanes dyn? Geni—byw—marw:
Gadael y tawel draeth am y mor garw:
Ymdrech â gwyntoedd chwyrnion dymhestloedd:
Diangc yn ddiogel i hafan dawel—Hafan o hedd;
Angori'n ddiogel yn hafan dawel—Hafan y bedd.

Carwr Gwybodaeth.—Os caniatewch i ni wneyd defnydd o air Saesneg pan na wyddom am air Cymraeg cyfattebol, ni ymdrechwn atteb eich gofyniad goreu y gallom. Wrth gloddio i grwstyn y ddaear canfyddir ei fod yn gynnwysedig o hânau a thalpau annhrefnus. Mae yn amlwg mai mewn dŵr y ffurfiwyd yr hânau, ac i'r creigiau talpog gael eu ffurfio gan dân ryw fodd neu gilydd. Geilw geologists y cyntaf y dosparth hânol, dwfraidd, neu waddodol, a'r olaf yr un tânol neu *volcanic*. Canfyddir fod y creigiau a ffurfiwyd gan wres wedi torri trwy yr hânau yn llawer man, neu wedi eu gwthio i fynu a'u cymysgu yn mhob dull a modd. Ffurfia rhai hânau onglau *(angles)* o wahanol faintioli â'r terfyngylch *(horizon)*; rhai hânau a welir yn sefyll yn syth, ac eraill a orweddant yn flat ar wyneb y crwstyn fel pe na byddent erioed wedi ei haflonyddu gan unrhyw bwer tufewnol. Weithiau chwi ganfyddwch hânau wedi eu briwo, ac eraill wedi eu nyddu megys gan ddaeargrynfâu. Rhoddir gwahanol enwau gan geologists i'r hânau yn ol y dull y maent yn ymddangos, megys, flat, gogwyddol, minawl, cydorweddawl, gwrthweddawl, cam, nydd-droawl, &c. Ond i chwi ddal sylw, chwi gyfarfyddwch ag engreifftiau o'r rhai 'n holl mewn gwahanol fanau. Dywedasom fod y creigiau tanawl *(volcanic rocks)* wedi gweithio i fynu yn llawer man trwy'r hânau, ac weithiau ceir hwynt yn gorwedd ar yr hânau, ond yn gyffredin oddi tan yr hânau y maent. Mae'r creigiau tânawl yn myned tan wahanol enwau yn ol gronynau eu cyfansoddiad, megys *granite, syenite, porphyry*. Gelwir terfysgiad yr hânau gan bwerau tanddaearol *faults, dykes, veins, fissures*. Yr hânau ydynt *seams, beds, schists, flags, bands*, yn ol eu trwch. Y creigiau tanawl ydynt *massive, amorphous, columnar, tabular, anticolumnar, porous, crystalline, saccharoid, hard, compact*, a'r cyffelyb. Y mae hefyd lawer math o greigiau a adnabyddir yn rhwydd ar ol ychydig o gyfarwyddyd, megys y garreg galch, *sandstone, chalk, shale, conglomerate, quarts, coal, gypsum, felspar, clayslate, granite, basalt, gneiss, lava, trap*, ac fe ddichon, eraill nad ydym ni yn awr yn gofio. Os oes gennych gyfaill ag sydd yn geologist da, efe a'ch cyfarwydda i adnabod y naill a'r llall o'r rhai hyn pan y cyfarfyddoch â hwynt. Dichon fod rhai o honynt i'w gweled mewn creigiau yn eich cymmydogaeth. Os nad ydym yn camsynied, nid yw'r *mountain limestone* ddim yn mhell oddiwrthych, a'r ffurfiad diweddar a elwir *lias*. Oddeutu deng milldir yn mhellach, ar lan y môr, gwelsom *gypsym*, neu *sylphate of lime*, o'r hwn y gwneir "Plaster of Paris." I'r *Devonian System* y perthyn yr *old red Sandstone*. Mae y ffurfiad hwn yn lled dyddorol, am y cynnwys yr olion cynaraf o greaduriaid glein-gefnol, neu rai yn berchen asgwrn cefn, a grewyd ar ein daear, yn enwedig pysgod. Y cam cyntaf mewn geology yw adnabod y gwahanol greigiau, a gwybod i bwy *system* y perthynant. Gobeithio fod hyn yn atebiad i'ch gofyniad.

O LANBEDR I LYN TEIFI.

Mr. Golygydd.—Ffafriol iawn oedd yr haf sydd newydd fyned heibio i bleser-deithiau, a chyd â llogell lawn o'r "pethau bach," rhydd cyfleusderau y dyddiau presenol rwydd hynt i ddyn bron yn unrhyw

gyfeiriad y myno. Mae manau mwyaf aohygyrch ein gwlad bellach yn clywed "Twrf a cherbydau'n tyrfu." Nid yw "Sir Aberteifi Sir Abernoeth, gwlad y bara barlys, a gwlad y bwrtran poeth," ddim yn ddieithr i swn yr hen gaseg dân, ond y mae "twrf yr olwynion chwyrnion" yn deffroi adsain o'r bryniau na chlywyd ei debyg erioed o'r blaen. Wel, y dydd Llun cyntaf o Orphenaf, cyfrifaf ef bellach yn un o ddisglaer ddyddiau fy mywyd. Codais y bore hwn gryn dipyn yn foreuach nag arfer (er fod yr haul wedi codi yn hir o fy mlaen), yr oeddwn ar fedr dàl y trên yn Llanbedr. Nid oedd hyny yn orchwyl hawdd i mi, yr oedd y ffordd ym mhell, yr hin yn boeth, a'r amser yn fyr; ond gyd â cherdded tipyn yn galed, chwythu'r fegin yn ddyfal, a phwmpio llawer o'r chwys allan, wele fi yn yr orsaf cyn i'r trên gychwyn. Cwrdd a chyfaill, a chlywed fod ereill i dd'od Codi tocynau, eistedd a disgwyl—disgwyl cael myned. Pum mynud ar ol yr amser, deg, pymtheg—bygwth myned—chwibanu—aros drachefn a thrachefn wrth swn ryw gerbyd, neu amnaid oddi wrth ryw un oedd â'i *umbrella* (!) i fyny a'i anadl yn nhwll ei wddf. Ugain mynud ar ol yr amser. Ffwrdd yn awr—nage etto. Rhywun etto yn d'od dan redeg, a ninnau yn aros. Hwn yn cymmeryd ei sedd a ninnau yn ol cyfarwyddyd Bruce a'r coryn yn *treio etto*. Y nawfed (?) gwaith—pw-pw-pwff, mae'r ager i fyny, a ninnau i ffwrdd o'r diwedd, ond siglo yr ym fel cart gwag yn myned i'r calch. Ym mlaen bellach, ac erbyn holi helynt ein gilydd (pump o honom), a siarad ychydig yn gyffredinol am y siwrne, wele ni yn aros etto, a'r gair Bettws, Bettws, yn syrthio ar ein clystiau. A ydyw Bettws mor bwysig a Llanbedr, os yw, byddwn yn hir cyn cychwyn. Mae'r eglwys yn y golwg, eglwys fach bert, newydd *spon* (beth yw *spon?*); ac ar bwys dacw dwr y Dderi Ormond, â'i ben yn uchel yn y cymylau. Gyd a chwibaniad wele ni i ffwrdd etto dan siglo siglo fel o'r blaen. Try'r ymddiddan yng nghylch y Bettws. Nid Bettws Iwan, na Bettws Leucu yw hwn, ond Bettws Bledrws. Bettws, medd un, yw lle bach clyd rhwng mynyddoedd. Medd arall, llygriad o'r Lladin *beatus* dedwydd yw. Ond dyma ni wrth orsaf Llanio, heb weled nemawr o ryfeddodau ar y de na'r aswy. Mae yma lawer, ond ychydig a ganiatâ'r trên i ni i syllu ar yr un peth. Bu'r hen Rufeiniaid yn teithio ffordd yma yr amser gynt. Try'r aradr lawer o'u gweddillion i fyny o bryd i'w gilydd—llestri pridd, *coins*, a phethau ereill. Saif Llanio lle'r oedd Loventium y Rhufeiniaid ac ar y ffordd Rufeinig o Maridunum (Caerfyrddin) i Penallt, ger Machynlleth. Enw cyffredin ar y ffyrdd Rufeinig yma yw "Sarn Helen," a llawer esboniad roddir ar yr ymadrodd. Y tebycaf i'r gwir fe allai yw, mae llygriad yw, o Sarn y Lleon, neu y lleng (*legion*), y lleng Rufeinig a fu'n eu gwneuthur tu ag 1600 o flynyddau yn ol, tu ag amser Julius Agricola. Llawer a synai y llengoedd yma pe gwelent ni heddyw yn myned heibio yn y cerbyd tân. Yr oedd rhyfeddodau yn perthyn i'w hoes hwy, ond a hwy yn farnwyr, mae llawn cymaint yn ein hoes ni. Ond dyma ni heibio i Lanio etto. Ar ein llaw aswy dyma Domen Llanio. Nid yw gymmaint a'r un ar bwys Pencader; ond pwy, tybid, ai Rhufeiniaid ai Brythoniaid ddygodd yng nghyd y fath gruglwyth, ac i beth? Ai amddiffynfa yw, ai beddrod—neu beth? Mae Echo'n atteb beth? Ar ein llaw ddeheu, ond nid yn y golwg, y mae castell *Sunny-hill*. Bastardd-air o ddosparth

y Tydraw—*house*. Pwy o blant Dic sydd wedi bod y ffordd yma yn gadael ol ei fysedd duon? Pam na chedwid yr hen enw gwreiddiol ar yr hen le? Ger llaw y mae castell Fflemys. Beth ydyw hanes y Fflemysiaid yn yr ardal yma? Dacw draw yn y pellder hen Fynydd y Berwyn, a dyma gyfaill yn adrodd:—

Mae'r bwrw 'Nghwmberwyn* a'r cysgod yn estyn,
Gwna heno fy mwthyn yn derfyn dy daith,
Cei fara a chawl erfin iachusol, a chosyn,
A 'menyn o'r enwyn, ar unwaith.

Heb fod ym mhell mae ogof Twm Sion Cati:—

"Parth hoff anwyl Porth y Ffynon,
Lle bu call fardd mawr Tregaron,
Twm Sion Cati y Cymro digri
Un o'r cewri, iawn wr cywrain
Gwyddai'n gywir am uchel-dir
A naws brodyr Ynys Brydain."

Gwr enwog oedd Twm, enwog am lawer o ddrwg, am beth da. Mwy na ddyger o'i rinweddau, na'i wendidau i oleu dydd. Gadawn iddo. Dyma Dregaron, mae sanau Tregaron yn hysbys i lawer, a Methodistiaeth Tregaron i rai. Yma y gwnaeth "Ficer Trefeca" lawer o waith—o waith da gobeithiwn. Mae'r eglwys dan nawdd Caron, hen sant Brydeinig. Nid y'm yn cael fod llewyrch mawr arni o dan ei nawdd. Mae lle i ofni mai baich heb ei cheisio mae'r esgobyddwyr yn osod ar ysgwyddau hen dduwiolion yr amser gynt. Ai rhoddi y drafferth arnynt hwy y maent er arbed gwaith iddynt eu hunain? Hyd pryd y pery'r fath baleyddiaith yn ein gwlad? Yn eglwys Caron mae pedair o feini coffadwriaethol hen iawn. Ar Benrhiwfflur, fan draw, y mae tair o *garneddau*, o darddiad Derwyddol medd rhai. Y mae llawer iawn o ryfeddodau eraill yn y plwyf, ond nid oes i ni eu gweled y tro yma. Yn y gymmydogaeth y mae Llanddewi Brefi—Luentinum y Rhufeiniaid. Lle enwog iawn oedd yn yr amser gynt. Erbyn heddyw ychydig y gall ddweyd yn rhagor na mi welais ddydd. Cynnaliwyd Synod yma tua'r flwyddyn 519 pan y pregethodd Sant Dewi yn erbyn heresi Pelagius. Mae darllenwyr yr "Ymofynydd" yn awr yn gwybod ei hanes ef. Mae darllenwyr *Drych y Prif Oesoedd* yn cofio:

Llanddewi Frefi fraith
Lle brefodd yr ych naw gwaith
Nes holltodd craig y Foelallt.

Y mae'r siwrne yn gwella wrth fyned yn y blaen. Cymmerai bythefnos i weled yr holl ryfeddodau, ac nid oes genym ni ond yr un diwrnod hwn. Golygfa hynod ydyw Cors Caron, ac y mae'r Gors Goch ar Deifi yn dra thebyg. Ni welais erioed y fath gyflawnder o fawn. Mae yma ganoedd o dunelli wedi eu tori yn siwr o fod, ac yn barod i'w gychwyn adref. Dyma feddyginiaeth rhag anwyd i'r Cardis erbyn y gauaf, ac ymddangosant yn fawr eu gofal i'w ddiogelu. A wyddost ti ddarllenydd, beth ydyw gweled milldiroedd o fawndir, a'r mawn (tywarch) wedi ei godi i sychu? Pan glywi wyr Morganwg yn ymffrostio dywed wrthynt nad oes ganddynt

* Nid gwir heddyw.

hwy yr un olygfa yn debyg i hon. A'r mynyddoedd—pa fodd y mae eu desgrifio? Rhamantus—mae'n air cyffredin gan y beirdd, ond nid Cymraeg mo hono. Craig, cribog, ysgythrog. Dywedir fod natur yn hoffi yn fwy y cylchog na'r cornelog. Sylwer ar ffurfiad cyffredin y mynyddoedd, ar rediad yr afonydd, &c.; ond wele yma eithriad, ac un gogoneddus yw. Ni welais erioed ddim yn tebygu yn fwy i rai o'r *Views from Abyssinia* yn yr *Illustrated London News*. Pa ryfedd fod beirdd yng ngwlad y cramwyth? Rhyfeddach na fyddai mwy o floeddio canu. Mae pob peth fel mewn cysgod hyfryd, ac yn cludo iechyd i galon ac enaid dyn. Ydyw, y mae'r Creawdwr wedi bod yn hael i ti, oh Gymru anwyl, gwlad y gân.

"Gwasgarodd brydferthion di-rif ar dy fonwes,
A rho'dd i bob llanerch ei rhywbeth ei hun;
I'r naill y Rhamantus, y gwyllt, a'r ofnadwy,
I'r llall y blodeuog, a'r prydferth ei lun."

Dyma ni yng ngorsaf Strata Florida, hyd yma y bwriadwn fyned gyd a'r Trên. *Tickets, Ladies and Gentlemen, Tickets.* Oh, na, 'does yma neb yn ymofyn ein *Tickets*. Dacw'r Trên yn myned—myned tuag Aberystwyth. Rhyw bryd etto i mi—i gael gweled Pont-y-gwr—(y gwr a'r dillad duon?). Ar y llaw aswy i ni y mae Ystradmeurig; ar y dê, Pont-Rhydfendigaid a'r Fonachlog—Monachlog Ystrad Fflur. Dyma *guide* i'n cyfarwyddo, ïe dyma Amnon II. Yr oeddwn i megys llawer o ddarllenwyr Yr Ymofynydd yn gydnabyddus â'i enw o'r blaen, ond dyma fe yn y corph yn awr. Mae Awen Amnon wedi rhewi; syndod, onid e, yn y fath ardal â hon? Ardal lle

"Mae ysbryd y cerddor ac awen y prydydd
O hyd yn yr awel, o hyd yn y mynydd."

O bossibl fod rhywbeth yn awyr Methodistiaeth yn anghydnaws ag awen Amnon. "Pa fodd," meddai'r Iuddewon, "y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr." Darllener Psalm cxxxvii. Dyma ni yn cael ein *introduce*-io i Amnon, ac yntau yn addaw myned gydâ ni. Mae'r ffordd yn glir yn awr i ni gael gweled beth sydd yn werth ei weled. Milldir a hanner i gerdded hyd y Bont. Mae llawer iawn o beth elwir yma yn *ddwst* ar hyd y ffordd, ond y mae'r awyr yn falmaidd a hyfryd. Yn y Bont rhoi *orders* yn y *tafarn* am dipyn o gwiaw, i fod yn barod am hanner awr wedi un. Cychwyn etto, gadael rhai—y boneddigesau, ar ol. Myned i mewn i dy bach ar ochr y ffordd, gweled hen gadair Iolo Morganwg, cadair a wnaethpwyd iddo gan un o'r Fychaniaid (Vaughan) i gysgu ynddi. Bûm yn eistedd yng nghadair Napoleon, ac yng nghadair brenhinodd, ond cred fi, ddarllenydd, mwy o anrhydedd oedd cael eistedd yng nghadair yr hen fardd anwyl o Drefflemin. Nid oes dim yn hynod yn ymddangosiad y gadair. Diau ei bod unwaith yn gadair hardd iawn, mae etto yn hyny ac yn esmwyth gyda llaw. Bu'r hen fardd flynyddau yn analluog i gysgu mewn gwely oherwydd yr *asthma*.

"Hunodd—ond saif mewn hanes—ei gofiant
Yn gufad ac ores;
Ceir llu'n dadganu'n gynnes,
I'n iaith lân faint wnaeth o les."

Dyma'r Bont—y bont sydd wedi ei hanfarwoli gan Edward Richard, mewn dwy gân, un o ganmoliaeth, ar llall o rywbeth arall. "Am Bont